# INNES, JAMES DICKSON (1887 - 1914), arlunydd

**Enw:** James Dickson Innes
**Dyddiad geni:** 1887
**Dyddiad marw:** 1914
**Rhiant:** Alice Anne Mary Innes (née Rees)
**Rhiant:** John Innes
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** arlunydd
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth
**Awdur:** Megan Ellis

Ganwyd 27 Chwefror 1887 yn Llanelli. Ef oedd yr ieuengaf o feibion John Innes, cyfrifydd, a'i wraig Alice Anne Mary (née Rees). Addysgwyd ef yng ngholeg Crist, Aberhonddu, ac yna yn ysgol arlunio Caerfyrddin. Enillodd ysgoloriaeth i ysgol arlunio Slade yn Llundain yn 1905, a threuliodd ddwy flynedd yno.

Ni bu erioed yn gryf ei iechyd ac yn 1908 sylweddolwyd mai'r darfodedigaeth oedd yn peri hynny. Yn ystod y blynyddoedd dilynol treuliodd lawer o amser gydag arlunwyr a chyfeillion eraill ar y cyfandir yn ceisio adfer ei iechyd. Bu yn ne Ffrainc am beth amser yn 1908, gyda John Fothergill, a'r adeg honno y dechreuodd beintio o ddifrif. Rhwng 1909 a 1913 bu am ysbaid ym Mharis, ac yna yn Collioure ac Ysbaen gyda Derwent Lees, ac ym Marseilles gydag Augustus John. Yr oedd John ac yntau'n gyfeillion calon a theithiodd y ddau lawer gyda'i gilydd yng ngogledd Cymru, yn enwedig yn ardal yr Arennig yn Sir Feirionnydd. Ymneilltuodd i Forocco yng nghwmni Trelawnay Dayrell-Reed am gyfnod ond nid oedd yr hinsawdd yno'n dygymod â'i iechyd a dychwelodd i Brighton yn gynnar yn 1914. Bu farw yn Swanley, swydd Gaint, 22 Awst 1914, a chladdwyd ef ym mynwent Chislehurst. Symudwyd ei weddillion i fynwent Whitchurch ger Tavistock, 6 Ionawr 1934.

Dyfrlliw oedd ei hoff gyfrwng ar y dechrau, ond cyn bo hir trodd at waith olew, a chanolbwyntio ar olygfeydd natur. Y mae'r defnydd a wnaeth o liwiau disglair a thanbaid yn nodweddiadol o'i waith, nid yn unig o'i olygfeydd yn Ne Ffrainc ond hyd yn oed o'i ddarluniau o ogledd Cymru. Edmygai gelfyddyd a thechneg Turner, Constable, a John Sell Cotman yn arbennig, ond ychydig o ddylanwad unrhyw artist neu fudiad arall sydd i'w olrhain yn uniongyrchol yn ei waith, a chadwodd ei nodweddion personol ei hun.

Dangoswyd un darlun o'i eiddo yn arddangosfa'r New English Art Club pan oedd ond yn 19 oed, a chynhaliwyd arddangosfa o'i luniau dyfrlliw yn Oriel Chenil yn Llundain yn 1910. Dangoswyd ei waith yn oriel Tate yn 1921-2 a chynhaliwyd ail arddangosfa goffa o'i waith yn oriel Chenil yn 1923. Yr un flwyddyn agorwyd cronfa gan awdurdodau'r *Llanelly Star*, i brynu rhai o'i ddarluniau i'r dref honno. Y mae enghreifftiau o'i waith hefyd yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd, ac yn orielau Tate yn Llundain, Temple Newsam yn Leeds, tref Aberdeen, a dinas Manceinion, ac mewn amryw o gasgliadau cyhoeddus a phreifat eraill.

## Awdur

**Megan Ellis**, (1906 - 2001)

## Ffynonellau


John Fothergill, *James Dickson Innes, Llanelly, 1887-Swanley, 1914* (Llundain 1946)

*Allgemeines Lexicon der Bildenden Künstler*, Vol. XIX

T. M. Rees, *Welsh painters, engravers and sculptors, 1527–1911* (1912)

*The Burlington Magazine*, Vols. XXXII & XL

*Llanelly Star*, 1923


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: James Dickson Innes

## Delweddau

Ian Strang, James Dickson Innes (1887-1914)

## Gweithiau

Amgueddfa Cymru: James Dickson Innes

Art UK: James Dickson Innes 1887–1914

Tate: James Dickson Innes 1887–1914

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 35397912

Wikidata: Q3404191

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu